# Cofnodion Mawrth 3ydd 2022

**Presennol:** Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Eifion Roberts, Heledd Roberts (dros Zoom)

Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd

Lis Puw*, Clerc*

Cyflwyniad ar Ardal Treftadaeth Y Bala: Mari Beynon Owen (Chambers Conservation, cwmni o benseiri cadwraethol) ac Elen Hughes, Parc Cenedlaethol Eryri (ar Zoom).

Mae'r Parc Cenedlaethol wedi rhoi'r gwaith i Chambers Conservation i edrych ar yr ardal gadwraeth yn Y Bala. Mae arolwg cychwynnol wedi ei wneud a bydd Cynllun Rheoli yn cael ei greu gan edrych ar adeiladau, gweithgareddau a bywyd y dref. Mae'r Bala yn fodel o fwrdeistref Normanaidd; mae nifer o adeiladau wedi eu rhestri a thybir bod angen rhestri eraill. Holodd am Neuadd y Cyfnod a Neuadd Buddug. Dywedodd Dilwyn Morgan y bydd Neuadd Buddug yn mynd ar y farchnad yn fuan. Mae sawl adeilad cyfarfod yn y dref yn barod a phe byddid yn cadw Neuadd Buddug fe fyddai angen iddo fod i bwrpas i gyfarfod angen neu bwrpas megis dehongli hanes Y Bala a fyddai'n cynnal ei hun. Mynegwyd fod ardal cadwraeth yn gallu bod o fwrn i brynwyr. Mae'n bosib ehangu'r ardal gadwraeth o fewn y dref.

Dywedodd Dilwyn Morgan ei fod yn teimlo bod angen i'r Bala fod yn ardal gadwraeth a threftadaeth i'r iaith Gymraeg gan ein bod erbyn hyn ar y ffin ieithyddol.

Dywedodd Elen Hughes y bydd ymgynghori pellach gyda'r Cyngor a'r gymuned cyn ei gynnwys yn yr ystyriaethau ar gyfer cynllunio yn lleol.

Dywedwyd fod prosiect Cyngor Gwynedd o'r enw Ein Hardal Ni yn edrych ar yr un math o gynllunio, A mynegwyd bod lle i Gyngor Gwynedd gyd-weithio gyda'r Parc Cenedlaethol.

Diolchwyd i'r gwesteion am eu cyflwyniad.

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Maer, O Rhys Evans, a gyfeiriodd at 200 mlynedd genedigaeth Michael D Jones ar 2/3/2022. Teimlai ei fod yn bwysig cofnodi cyfraniad arbennig enwogion Y Bala ac nad ydyw'r cerrig milltir hanesyddol yn cael eu hanwybyddu.
   Dywedodd y cafodd y fraint o weld cynhyrchiad Sioe "Grîs" yn Ysgol Godre'r Berwyn yn ddiweddar a llongyfarchodd pawb a oedd yn ymwneud a'r Sioe.
   Mae wedi cael gwahoddiad i rannu cinio gyda Theulu'r Berwyn yr wythnos nesaf.

2. **Derbyniwyd Ymddiheuriadau:** Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Elin Hedd, Tony Parry, Carol Rowlands, John Caradog Williams.

3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/2/22.

5. **Materion y Clerc:**

   i. Ymatebodd Cefnffyrdd nad y nhw sy'n berchen ar yr arwyddion sydd wedi troi: y tebygolrwydd yw mai Parc Cenedlaethol Eryri sydd eu perchen. Cytunwyd i gysylltu gyda'r Adran Eiddo, gyda chopi i Warden Penllyn.

   ii. Etholiadau Mai: Cyhoeddir y ffurflenni ymgeisio yn fuan. Derbyniwyd llythyron ffarwelio oddi wrth Alun Price ac Ivora Jones yn mynegi gwerthfawrogiad o gefnogaeth aelodau'r Cyngor dros y blynyddoedd. Ar ei ran ef ac Ivora Jones, diolchodd Alun Price am y gwmnïaeth ar hyd cyfnod o 25 mlynedd a chyfeiriodd at sawl llwyddiant megis y Triathlon wreiddiol. Daeth i'r Bala o'r gogledd ddwyrain a chafodd groeso cynnes yma iddo ef a'r teulu.

   Ar ran y Cyngor diolchodd y Maer iddo ef ac Ivora Jones am eu gwasanaeth hir a chlodwiw i'r Cyngor ac i dref Y Bala.

   iii. Cyfarfod safle parthed llochesi bws – adroddodd Eifion Roberts a Dilwyn Morgan iddynt hwy a Carol Rowlands fynychu cyfarfod safle gyda'r sawl yng ngofal yr uwchraddiad ac fe gytunwyd ar y lleoliadau. Mae posibilrwydd y bydd cyfle o fewn y grant i dalu costau cynnal i'r 5 lloches am 5 mlynedd. Disgwylir i'r gwaith cael ei wneud cyn yr haf.

6. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd a soniodd fod John Caradog Williams yn bryderus am ddiffyg lle i blant chwarae yn ardal Blaenddol a Chysgod y Coleg, ac mae'n gweithio gyda phartneriaid er mwyn ceisio diwallu'r angen. Mae'r gwaith cyfreithiol parthed y Ganolfan Deulu wedi ei orffen a bydd ar agor erbyn yr haf. Anogodd pawb i ymateb i Ein Hardal Ni. Mae'r Adran Briffyrdd wedi rhoi'r gwaith wrth Ffordd y Gerddi ar y rhaglen waith. Bydd Clwb Moduro Amwythig yn cynnal rali ar Mai 21. Mae wedi annog Rheilffordd Llyn Tegid i sefydlu grŵp gwirfoddol yn lleol.

7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd Adroddiad Andrew Basford trwy law Tony Parry ac roedd bodlonrwydd gyda'r gwaith sydd wedi ei gyflawni er gwaethaf y stormydd geirwon yn ystod y mis. Diolchwyd hefyd fod yna gymaint o bobl leol yn gweithio yno.

8. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiad y grŵp a fu'n trafod safleoedd meinciau gydag Andrew Basford; disgwylir cyfarfod pellach yn y cyfnod nesaf o'r gwaith.

9. **Materion Cynllunio** NP5/53/590 Cymeradwywyd cais cynllunio ôl-weithredol i gadw sied yn yr ardd ffrynt 4 Yr Hafan, Bala. LL23 7AU.

**10. Materion Cyllid:**

**a.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

**b.** Uwchraddiwyd y Rheoliadau Ariannol i gynnwys trefniadau bancio ar lein.

***c.*** Cytunwyd i dalu anfonebau: Cyngor Gwynedd (goleuadau Nadolig) £1680 yn cynnwys TAW; Coeden Nadolig a osodwyd ar dir Hynafolion Hefin £100; Un Llais Cymru (aelodaeth) £368; trwydded Zoom yn rhanedig gyda Llanuwchllyn £45.50; taliadau o dan gytundebau.

d. Cytunwyd i  wneud Cyfraniadau Cymunedol fel a ganlyn, gan atgoffa ymgeiswyr y bydd angen manylion llawn i'r ceisiadau am gefnogaeth ariannol yn Chwefror 2023.

| | |
|---|---|
| Cantref | £200 |
| Cymdeithas Gymunedol Y Bala a Phenllyn | £1,000 |
| Teulu Berwyn | £350 |
| Cymdeithas genweirio | £300 |
| CFfI Meirionnydd | £300 |
| Clwb Hoci | £200 |
| Clwb badminton | £150 |
| Theatr Bara Caws | £100 |

**11.Gohebiaeth:** Trafodwyd

a. Comisiwn ffiniau etholaethau seneddol: Gwrandawiadau Cyhoeddus ym Mangor 9/3/22 ac Aberystwyth 30/3/22
b. Adroddiad blynyddol ar daliadau i Gynghorwyr
c. Cyngor Gwynedd: bydd y Cyngor yn asesu safleoedd ac yn darparu biniau a halen yn y dref.
d. Nodwyd gohebiaeth Stori am Ryddid Gwybodaeth ac ymateb y Clerc. Mae angen i NMWTRA a Chyngor Gwynedd roi trefn ar eu gwaith papur.  Nodwyd mai "Cyfethol" yn gallu digwydd o fewn tymor Cyngor;  os nad oes cystadleuaeth am sedd ar gychwyn tymor Cyngor, mae'r Cynghorwyr sydd wedi rhoi eu henwau ymlaen wedi eu hethol (heb orfod cynnal y broses o etholiad).
e. Derbyniwyd rhybudd o ras rhedeg ym mis Awst dros yn ardal y ddwy Aran a Chader Idris.
f. Derbyniwyd llythyr busnes gan drefnwyr Triathlon Y Bala .
g. Rhoddwyd cefnogaeth i ddymuniad Hwb i osod meinciau cyfeillgarwch ac awgrymwyd Heol Ffrydan, ardal yr Hen Lyfrgell ac o flaen Canolfan Tegid fel safleoedd posib.
h. Derbyniwyd gwybodaeth am Bwyllgor ardal Un Llais Cymru ar 9/3/22 a diolchwyd i Alun Price am gynrychioli'r Cyngor.

**12.Partneriaeth Penllyn:** Nid oedd adroddiad y tro hwn.

13.**Asedau'r Cyngor:** Derbyn adroddiad Carol Rowlands fod eu cyflwr yn iawn.

14.**Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Dywedodd Heledd Roberts y byddai'n adrodd o'r Grŵp Busnes y mis nesaf.  Yn y cyfamser, dywedodd y Maer y byddai'n pwrcasu baneri i'r Stryd Fawr.

Ar ddiwedd y cyfarfod cafwyd cyfle i gofio am y sefyllfa echrydus yn yr Iwcrain.  Dywedodd y Maer y byddai'n gwneud cyfraniad ariannol o gyfrif y Maer ar ran Tref Y Bala.

Amser gorffen: 9.20pm



ARWYDDWYD.......................................................(MAER)    /    /    .....................................(CLERC)